



Joint Council for
Qualifications

Addasiadau Rhesymol ar gyfer TAG Safon Uwch Gwyddorau Arnodiad sgiliau ymarferol

Mae cyhoeddiad y *CGC Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* yn nodi'r holl drefniadau mynediad sydd ar gael. Mae rhai trefniadau yn cael eu dirprwyo i ganolfannau ac nid oes angen tystiolaeth o angen na chais ffurfiol ar-lein arnynt. Mae'r trefniadau a ddirprwyir i ganolfannau yn cynnwys geiriadur dwyieithog, enwi lliwiau, anogwr, egwyliu gorffwys dan oruchwyliaeth a defnyddio prosesydd geiriau (gyda'r gwiriad sillafu a gramadeg wedi'i analluogi), er enghraifft. Mae trefniadau eraill yn gofyn bod tystiolaeth o angen yn cael ei chyflwyno fel rhan o gais ffurfiol ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys amser ychwanegol, darllenydd ac ysgrifennydd.

Bydd angen i'r Cydlynnydd AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) weithio gyda staff addysgu, ac uwch arweinwyr lle bo angen, i benderfynu ar drefniadau mynediad sy'n briodol ac yn rhesymol yng nghydestun yr Arnodiad Ymarferol.

Nid yw'r Arnodiad Ymarferol mewn Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg yn gydran sy'n cael ei hamseru ac fe'i cynhelir yn ystod amser gwersi arferol. Felly nid oes angen dyfarnu amser ychwanegol a/neu egwyliu gorffwys dan oruchwyliaeth.

Ar gyfer ymgeisydd sydd â threfniant mynediad, a roddwyd ar waith gan y Cydlynnydd AAA, yn rhan o'i ffordd arferol o weithio, gall barhau i'w ddefnyddio yn ystod yr Arnodiad Ymarferol os oes ei angen ac os nad yw'n tansilio'r asesiad. **Yr unig eithriad yw defnyddio cynorthwydd ymarferol, gan nad yw hyn yn caniatáu i ymgeisydd ddangos ei sgiliau annibynnol/meistrolaeth o'r sgiliau ymarferol.**

Os nad yw ymgeisydd, oherwydd ei anabledd, yn gallu dangos un neu fwy o'r cymwyseddau yn y sgiliau gofynnol, nac yn gallu defnyddio cyfarpar neu dechnegau, gall ofyn am gael ei eithrio. Os yw hynny'n cael ei gytuno, bydd yn nodi ar dystysgrif yr ymgeisydd bod eithriad wedi'i ganiatáu. Dylai'r ymgeisydd gymryd rhan mewn cymaint o'r gweithgarwch ymarferol â phosibl i gefnogi ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth ar gyfer asesu sgiliau ymarferol yn anuniongyrchol yn yr arholiad ysgrifenedig.

Nodir isod enghreifftiau penodol ar gyfer y Meini Prawf Asesu Ymarferol Cyffredin (CPAC).

Ar gyfer **CPAC1** mae angen i ymgeiswyr **ddilyn gweithdrefnau ysgrifenedig**.

Ar gyfer **CPAC2** mae angen i ymgeiswyr gymhwyso **dulliau ymchwiliol wrth ddefnyddio offer a chyfarpar**.

Ar gyfer **CPAC3** mae angen i ymgeiswyr **ddefnyddio amrywiaeth o offer a defnyddiau ymarferol yn ddiogel**.

Ar gyfer **CPAC4** mae angen i ymgeiswyr **wneud a chofnodi arsylwadau**.

Ar gyfer **CPAC5** mae angen i ymgeiswyr ymchwilio, cyfeirio ac **adrodd**.

Ar gyfer CPAC2 a CPAC3, mae trin cyfarpar yn sgil sy'n cael ei asesu ac mae'n weithgaredd ymarferol y mae'n **rhaid** i'r ymgeisydd ei ddangos. **Felly, ni chaniateir i gynorthwyydd ymarferol gyflawni tasg o'r fath ar ran yymgeisydd.**